
# HELYNT TYWYSOG YN Y BRIFWYL

**Datguddiad am Brifwyl y Fflint gan y diweddar Ernest Roberts**


Gogoniant i Gymru
(Alaw: "Cadair Idris") gan Cynan.

Gogoniant i Gymru am hardd ei mynyddoedd
Y wlad lle carola pob nant tua'r môr,
A llwyni a llynnoedd yn rhannu'i dyffrynnoedd
A'i hadar bach mwynbla yn canu'n un côr.
Gogoniant i'w gwerin am fedrter y crefftwr
Mewn glanfa a glofa, ar don ac ar dir,
– Chwarelwr, amaethwr, gof, saer a physgotwr,
Pob gweithiwr a gadwodd gampwaith yn ir.

Gogoniant i Gymru am lên a thelynau
A daniodd y fron â cherdd dafod cerdd dant,
Am heniaith sy'n fyw trwy wrhydri a brwydrau
Iaith annwyl gan werin, tywysog, a sant.
Gwlad Gorsedd a'i defod, â'i thyner fythynod
Yr englyn yn nawdd ac i'r emyn yn nyth,
Hen Wlad yr Eisteddfod Gwlad Ysbryd [illegible]
Gogoniant i Gymru! Gogoniant am byth!

Y CYTHRAUL mawr i godi ei ben oedd y trefniadau i dderbyn Tywysog Cymru yn Eisteddfod y Fflint (1969).

Roeddym erbyn hyn ynghanol berw'r protestiadau yn erbyn yr arwisgo ond bu bron i Eisteddfod y Fflint fynd yn deilchion a phe digwyddasai hynny amheuaf yn fawr iawn a welid yr Eisteddfod Genedlaethol byth wedyn ar yr un raddfa a phatrwm gan ei bod yn dibynnu'n gyfangwbl ar gyfraniadau'r Awdurdodau Cyhoeddus oedd yn solet tu cefn i'r Arwisgo ac yn paratoi i'w ddathlu yn lleol.

'Roedd y Cyngor hefyd yn rhwym hefyd o'i gefnogi gan fod cynrychiolywr yr Eisteddfod, sef Cynan, Gwyndaf ac Emrys Roberts ar Bwyllgor yr Iarll Farsial. Ar bwys hynny gofynnodd Pwyllgor Gweinyddol y Cyngor i Stephen J Williams, Cynan a minnau weithredu ar Bwyllgor Arglwydd Raglaw Sir Fflint i drefnu'r ymweliad a'r Eisteddfod.

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn yr Wyddgrug, Dydd Mercher, 26 Mawrth 1969. 'Roedd yn bresennol – Yr arglwydd Raglaw (Y Brigadydd Mainwaring), Haydn Rees (Clerc y Rhaglawiaeth), Armon Ellis (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y Fflint), Cynan, John Roberts (Trefnydd) a minnau. Nid oedd S.J.W. yn teimlo fod galw arno ef i deithio o Abertawe i'r Wyddgrug ar gyfer y cyfarfod hwn.

Cyflwynodd yr Arg. Raglaw yr amserlen o Balas Buckingham o daith y Tywysog a'r amser a neilltuwyd iddo yn yr Eisteddfod. Yna daethom at y cwestiwn – pwy oedd i dderbyn y Tywysog ar lwyfan yr Eisteddfod ac 'roeddym yn cytuno mai Llywydd Llys yr Eisteddfod sef Cynan.

Roedd Cynan hefyd, fel bob amser, am gael lle i'r Orsedd ac awgrymodd fod yr Archdderwydd Tilsley i fod wrth ei ochr ar y llwyfan i dderbyn y Tywysog.

Gwrthwynebais hynny ar y tir y byddai'r Orsedd erbyn Eisteddfod y Fflint wedi cael ei lle yn seremoni'r arwisgo yng Nghastell Caernarfon. Cytunwyd â mi.

* * *

BUOM HEFYD yn trafod natur rhaglen o awr o amser ar y llwyfan a chytunwyd ar eitemau cystadleuol i ieuenctid (i'w pennu pan lunir rhaglen y dydd), eitem agoriadol gan y Côr Plant ac un arall tua chanol y rhaglen, a chloi gyda Hen Wlad fy Nhadau. Dewiswyd "Tywysog Gwlad y Bryniau" i'r gân agoriadol.

Tua chanol Mai (1969) fe'm hysbyswyd ar y ffôn gan John Roberts (Trefnydd) fod plant ysgolion Cymraeg Maes Garmon a Glan Clwyd yn gwrthwynebu canu **fersiwn newydd** gan Cynan i 'Tywysog Gwlad y Bryniau'. Ni wyddwn i ddim o gwbl am y fersiwn newydd ac ni wyddai swyddogion y Fflint chwaith nes derbyniasant gopi oddi wrth Cynan.

Ni soniodd neb yn ein cyfarfod gyda'r Arglwydd Raglaw am gael fersiwn newydd. O'r 450 o blant a oedd yn y Côr, 'roedd 130 ohonynt o'r ddwy Ysgol Gymraeg a hwy oedd cnewyllyn Cymraeg y Côr.

Nis gellid ei hepgor, ac yn sicr ni ddylid mentro rhoi cyfle iddynt wrthod codi gyda'r gweddill o'r Côr pan oeddynt ar y llwyfan a hynny o flaen camerau teledu. Yr oedd Armon Ellis wedi cael sgwrs hefo Cynan yn egluro'r safle iddo ac na soniwyd ym mhwyllgor yr Arglwydd Raglaw am gael fersiwn newydd.

Ond yr oedd Cynan yn bendant ein bod wedi gofyn iddo gyfansoddi fersiwn newydd, ac yr oedd wedi danfon copi o'r gân i'r Tywysog trwy Mr. Millward. (Roedd y Tywysog ar y pryd yn dysgu Cymraeg gyda Millward yng Ngholeg Aberystwyth). Byddai'n sarhad cyhoeddus arno i dynnu'n ôl 'Cân y Tywysog' ac ni allai byth gytuno â'r fath beth.

Fe wnaed cais am gopi o'r gerdd a dyma hi

**Cân y Tywysog (gan Cynan)**

**Ar hen fynyddoedd Cymru**
**A thrwy'i dyffrynnoedd hi,**
**Anrhydedd ac anwyldeb**
**Fo i'n Tywysog ni.**
**Er cwympo'r dewr Lywelyn,**
**Er cilio o'r doeth Lyndwr**
**Boed ein Tywysog ifanc**
**I'n gwlad a'n hiaith fel tŵr.**

*Tywysog Gwlad y bryniau*
*Byth rhoed y Nefoedd Wen*
*Serchiadau brwd y Cymry*
*Yn goron ar ei ben.*

Pe cyhoeddid y gân yn Rhaglen y Dydd i'w chanu gan gynulleidfa'r Eisteddfod ofnwn y cynheuid coelcerth ar Faes yr Eisteddfod o raglenni'r dydd ddyddiau cyn ymweliad y Tywysog.

Treuliais fore gyda Chynan yn ei gartref ym Mhorthaethwy ond 'roedd yn ddi-ildio i roi ffordd i brotestwyr. 'Roedd y gân a throsiad Saesneg ohoni eisoes wedi ei danfon i'r Tywysog ac i'r Palas.

Mynnai iddo **grybwyll** fersiwn newydd ym Mhwyllgor yr Ar. Raglaw. Dylai Pwyllgor y Fflint meddai ddiarddel y protestwyr o'r Côr.

Buom yn dadlau ôl ac ymlaen ond roedd Cynan yn gadarn a di-ildio. Pwysais am gael setlo'r mater cyn i'r wasg gael gafael ar y stori. Credai Cynan fodd bynnag y byddai'r Orsedd yn cadarnhau ei safiad yntau. 'Roedd **Gwyndaf** wedi gweld copi o'r gân ac yn ei chymeradwyo.

Trefnais i gyfarfod Armon Ellis a John Roberts yn y Rhyl Nos Fercher. Dywedodd Armon wrthyf ei fod newydd glywed gan Roland Morris (Arweinydd y Côr Plant a Chyfarwyddwr Cerdd Sir Fflint) ei fod yn wyneb yr holl amgylchiadau wedi penderfynu na fedrai arwain y côr i ganu fersiwn newydd – "roedd o eisiau byw a gweithio hefo athrawon Sir Fflint ar ôl yr Eisteddfod.

Rhois wybod hynny yn ddiweddarach i Cynan a bod hynny felly yn golygu na chenid y fersiwn newydd o gwbl a'i bod yn mynd allan. "Felly 'rydw innau yn clirio allan" atebodd.

Dywedais wrtho am gysgu dros y broblem ac y down i'w weld ddydd Mawrth.

* * *

ROEDD Cynan yn ystod y dydd wedi bod yng Nghastell Caernarfon i gael gweld a sefyll ar yr union le y bydd yn sefyll i ledio'r emyn ar ddiwrnod mawr yr Arwsigo. Roedd hwyl dda arno yn disgrifio hyn oll ac ymroddais i'w borthi ac i ryfeddu at bopeth a ddywedai. Fe ddywedodd hefyd yn gwbl gyfrinachol "a tydw i ddim am ddeud hyn wrth heb ond wrtha chi a William" (Wm. Morris), y cynhwysid ei enw yn rhestr anrhydeddau'r Frenhines.

Wedi iddo eistedd yn ei hoff gadair – Cadair Pontypwl – "Wel 'rŵan SYR CYNAN" meddwn "dim rhagor o blydi nonsens hefo Fflint i ddifetha'r cwbl".

Dywedodd ei fod wedi trafod y mater hefo Menna ar ôl y sgwrs a gawsom ddoe. Roedd hithau'n meddwl y dylai dynnu'r gân yn ôl i arbed rhagor o helynt ond yr hyn a'i poenai oedd na fedrai wneud hynny heb hysbysu'r Arglwydd Raglaw. Yn hytrach na chadw at 'Tywysog Gwlad y Bryniau' byddai'n well ganddo gyfansoddi geiriau eraill. Roedd rhediad cerdd newydd yn ei feddwl ond sut y gellid hysbysu'r newid i'r awdurdodau oedd yn ei boeni.

Awgrymais anwybyddu hynny gan na fyddai neb ohonynt ddim callach.

Gwelais ar unwaith fod Cynan yn falch o dderbyn y llwybr hwn allan o'i gongl ac fe addawodd y cawn weld cân arall ymhen ychydig ddyddiau.

* * *

GALWODD Cynan fi ato ddydd Iau ac fe ddarllenodd ei gerdd 'Gogoniant i Gymru' imi. Fe'm swynwyd yn fawr ganddi ac ni phetrusais ddweud y derbynnid hi yn llawen iawn yn y Fflint. Danfonais gopi ohoni ar unwaith i John Roberts, ac fe'i gwelwch yn y gwreiddiol yn llaw Cynan ei hun yn y darlun.

Wedi iddynt dderbyn y gân yn y Fflint 'roedd y swyddogion ac arweinydd y Côr plant wedi ei derbyn yn galonnog iawn, a chefais eu diolchgarwch imi am fod yn gyfrwng i dawelu storm oedd yn prysur gynddeiriogi. Cyhoeddwyd y gân yn Rhaglen y Dydd.

Clywais yn fuan wedyn i Haydn Rees hysbysu ei Arglwydd Raglaw o'r newid a hyd y gwn fe dderbyniodd yr eglurhad am y newid.